

Adolygiad Blynyddol

Ebrill 19—Mawrth 20

Rhif elusen: 1086434

Rhif cwmni: 04033853



Ein nod ydi mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol trwy gefnogi cymunedau amrywiol i ennill y grym sydd ei angen arnyn nhw er mwyn cyflawni newid. Fe wneir hyn gynnon ni trwy drefnu cymunedol: dod â phobl a sefydliadau lleol at ei gilydd, eu hannog i osod eu hagenda'u hunain, cymryd camau gweithredol a gwella'u cymunedau eu hunain.

Mae Trefnu Cymunedol Cymru yn gyfuniad o nifer o grwpiau ffydd, grwpiau cymunedol ac ysgolion ar draws Siroedd Wrecsam, Fflint a Dinbych. Yn ein cyfarfodydd misol mae croeso i unrhyw un o'n haelodau godi mater yr hoffon nhw i TCC weithio arno. Golyga hyn mai ein haelodau sy'n llunio'n hagenda. Unwaith y bydd pob aelod arall wedi cytuno ar fater i weithio arno byddwn yn edrych ar y mater yn ofalus, yn darganfod pwy arall a all fod â diddordeb, a phwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniad fydd yn newid y sefyllfa. Yna byddwn yn mynd ati i gefnogi'r rheiny caiff eu heffeithio gan y mater i arwain ymgyrch, gan gwrdd â'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i wneud newidiadau.

Rydym ni'n gweithio mewn cylchoedd cyhoeddus, yn aml gyda phobl mewn grym. Serch hynny, does gennym ni ddim ffafiaeth wleidyddol. Ein bwriad yn bennaf yw meithrin perthynas â phobl grym yn lleol er mwyn sicrhau fod pobl yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Dyma sydd wrth wraidd llwyddiant Trefnu Cymunedol Cymru ers ei sefydlu ym 1995. Yn 2016 bu TCC yn fuddugol yn seremoni Gwobrau Elusennau'r Guardian. Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn amlinellu rhai o'n llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae adroddiad blynyddol llawn sy'n cynnwys y cyfrifon archwiledig ar gael yn swyddfa'r sefydliad a gan y Comisiwn Elusennau.



**“Wrth drefnu gyda TCC, bu inni ennyn newid ar draws Gymru gyfan.”
Stephen Garthwaite, pennaeth Ysgol y Grango**

arian i'r disgyblion fel y medrent fwyta. Cafodd y straeon hyn eu profi drwy ymchwil TCC a ddangosodd bod hyn yn digwydd ledled Cymru. Lansiodd TCC ymgyrch Dysgu Nid Llwg / Stop School Hunger ledled Cymru ym mis Tachwedd 2019, ac ym mis Rhagfyr cyfarfu aelodau TCC gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, i drafod y mater. Fel canlyniad i'r ymgyrch neilltuodd Llywodraeth Cymru £450,000 i redeg cynllun prawf mewn ysgolion uwchradd o fis Medi 2020 ymlaen. Bydd hyn yn golygu bod y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn Prydau Bwyd Ysgol am ddim, yn gallu prynu brecwast yn ogystal â chinio. Os yw'r cynllun yn llwyddiannau caiff ei ymestyn y flwyddyn ganlynol i glustnodi £4miliwn ar gyfer bob plentyn uwchradd cymwys yn ysgolion Cymru.

Dywedodd pennaeth Ysgol y Grango Mr Stephen Garthwaite, “Rydw i ar ben fy nigon ac yn falch o ddweud fod profiad dyddiol fy staff wedi tynnu sylw at broblem sy'n gyffredin ymhob cwr o'r wlad. Wrth drefnu gyda TCC, bu inni ennyn newid ar draws Gymru gyfan. Bydd yn golygu y gall plant ddechrau eu dydd gyda'u boliau'n llawn. Bydd hyn yn fanteisiol i'w lles yn ogystal â'u gallu i ddysgu”. Dywedodd cynorthwydd dosbarth, Mrs Yvonne Girvan: “Doeddwn i methu â pheidio gweithredu pan oedd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn llwgu. Roedd y mwyafrif o'r staff dwi'n eu hadnabod yn gwneud yr un peth, sef gwario'u harian eu hunain yn bwydo'r plant. Dengys ymchwil TCC fod hyn yn digwydd ledled y wlad. Mae'n newyddion gwych i blant tlotaif Cymru, ac yn dangos beth allwn ni ei gyflawni fel cymunedau pan fyddwn yn mynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol rydym yn eu hwynebu.”

Wrecsam Tref Noddfa

Roedd pobl a oedd â phrofiad o geisio noddfa yn eglur mai un o'r pethau oedd ei angen fwyaf yn Wrecsam oedd hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda ffoaduriaid neu geiswyr lloches yn eu swyddogaethau proffesiynol. Byddai hynny i greu awyrgylch mwy croesawgar yn ogystal â gwella profiad ceiswyr noddfa wrth ddefnyddio gwasanaethau. Mewn ymateb, bu grŵp Tref Noddfa Wrecsam yn cynorthwyo pobl a oedd â phrofiad personol i gynllunio a chyflwyno hyfforddiant. Cafwyd croeso cynnes i'r fenter gan y cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, y GIG, y cynghorau cymuned a chyrrff crefyddol a gwirfoddol a oedd yn bresennol.

Yn ystod Wythnos y Ffoaduriaid 2019 daeth dros 120 o bobl ynghyd yn Nhŷ Pawb i gydnabod profiad a chyfraniad ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn noson o ffilmiau, barddoniaeth a cherddoriaeth. Gwnaeth aelodau grŵp Tref Noddfa Wrecsam a'r Wrexham VOICES Network hefyd gyfraniad allweddol tuag at goffâd Diwrnod Cofio'r Holocaust 2020.

Ein haelodau Ar hyn o bryd mae gennym ni 33 o grwpiau gwahanol sy'n aelodau ac rydym ni wastad yn croesawu grwpiau newydd i'r gorlan. Mae pob grŵp yn talu ffi aelodaeth yn seiliedig ar eu maint. Ond fel y gwelwch chi, arian grant yw'r rhan helaethaf o'n hincwm.

Mae bod yn aelod o Drefnu Cymunedol Cymru yn rhoi cyfle i grwpiau ddod â'r materion sy'n eu pryderu i sylw'r sefydliad. Mae hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth, i roi cymorth a chefnogaeth i grwpiau eraill yn ogystal â chael hyfforddiant am ddim gan y sefydliad. Rydym ni'n cynnig hyfforddiant rheolaidd ar ffurf ein cyrsiau preswyl neu fe allwn ni drefnu hyfforddiant yn arbennig ar gyfer eich grŵp.

Ieuenctid yn gweithredu

Gweithiodd arweinwyr ifanc TCC ar amrywiaeth drawiadol o faterion eleni. Sicrhodd Grŵp Grym yr Ifanc ymrwymiad gan Goleg Cambria i weithio tuag at ddod yn goleg noddfa. Mewn sawl ysgol, sicrhawyd ymrwymadau i wella bywyd ysgol gan bobl ifanc a oedd am i'w hysgol gyflwyno hyfforddiant mewn Iaith Arwyddion Prydain fel rhan o drefn ymsefydlu aelodau staff, am weld gwella toiledau disgyblion yn sylweddol ac am i'w hysgol greu ardal ymdawelu i gynorthwyo myfyrwyr â'u hiechyd meddwl. Y tu allan i'r ysgol, sicrhodd arweinwyr ifanc bod Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n gweithredu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn tref yn Sir y Fflint. Mae iechyd meddwl yn bryder i lawer o'n grwpiau, ac mae arweinwyr ifanc wedi ymateb drwy gyfarfod ac Aelodau'r Senedd yn lleol ynghylch hynny a sefydlu gwobr arfer gorau ar gyfer ysgolion, cynllun a ddatblygwyd yn dilyn digwyddiad ymgynghori a drefnwyd gan arweinwyr ifanc.



Nodyn gan y prif drefnyddion

Bu eleni'n flwyddyn arbennig o gyffrous, wrth i ni weld cynnydd sylweddol yn ein strategaeth fwy hirdymor i ehangu'n gwaith ar draws Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Ym mis Mai, roeddem wrth ein boddau clywed i ni lwyddo i sicrhau cyllid am bum mlynedd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gyflogi dau drefnydd cymunedol newydd. Rydym yn ddiolchgar am y cyllid hwn, a fydd yn ein galluogi i ddatblygu cysylltiadau newydd ac i weithio mewn ffordd fwy cyson â grwpiau sy'n aelodau eisoes yn y siroedd hynny, i ganfod a hyfforddi arweinwyr cymunedol ac i sicrhau newid er gwell yn y materion sy'n effeithio ar gymunedau. Ymunodd Hugo Panayiotou a Kelly Roberts â TCC ym mis Hydref a dechrau'n ddi-oed ar y gwaith o adeiladu cysylltiadau ledled y Gogledd-ddwyrain. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r *Tudor Trust* am ddyfarnu cyllid tuag at gostau rhedeg craidd TCC.

Mae gwaith ieuenctid TCC yn parhau'n egniol, a phleser yw cydweithio â doniau arweiniol â chreadigol ein harweinwyr ifanc. Er bod llawer o'n gwaith ieuenctid yn digwydd mewn ysgolion, cyfrannodd llawer o'n harweinwyr ifanc eleni'n i'n cyfarfodydd strategaeth misol a'n diwrnod cynllunio blyneddol; mae'r cydweithio hwn rhwng arweinwyr ifanc a hŷn yn gryfder gwirioneddol i ni. Rydym yn ddiolchgar i'r *Esmée Fairbairn Foundation* am gyllid a'n galluogodd i wneud y gwaith hwn dros y pedair blynedd diwethaf, ac rydym wrth ein bodd ein bod bellach yn gweithio gyda chronfa *Act for Change* (sy'n fenter ar y cyd rhwng y *Paul Hamlyn Foundation* a'r *Esmée Fairbairn Foundation*) i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen dros y ddwy flynedd nesaf.


Bu arweinwyr ifanc hefyd yn cyfranogi'n llawn yn y cyfarfodydd grwpiau bach cynhwysfawr ymateb cyflym a drefnasom gydag ymgeiswyr yn yr Etholiad Cyffredinol ledled y Gogledd-ddwyrain. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gosod y seiliau ar gyfer adeiladu cysylltiadau cyhoeddus â'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau gwleidyddol ac mae'r ffaith i nifer fawr o bobl gymryd rhan yn brawf o ba mor bwysig yw ymgysylltu ac atebolrwydd democrataidd i'r grwpiau sy'n aelodau o TCC.

Rhan o lawenydd ein gwaith fel trefnwyr yw adeiladu cysylltiadau ag arweinwyr cymunedol newydd, a dyfnhau'n perthynas â'r rhai profiadol. Mae ein hyfforddiant trefnu cymunedol preswyl yn dod â phobl sydd â straeon, profiadau a sgiliau grymus ynghyd, ac ni fu'r digwyddiad hyfforddi a gynaliasom eleni yn eithriad i hynny. Roeddem hefyd wrth ein bodd eleni'n croesawu *KeyRing* (Sir y Fflint a Sir Ddinbych) a'r *Wrexham VOICES Network* yn aelodau. Fe wnaethom ddatlu arweinwyr cymunedol benywaidd TCC drwy dynnu sylw at eu cyfraniadau fel rhan o gyfres o gyfweiliadau ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Wrth i'r flwyddyn adrodd ddod i ben daeth y cyfyngiadau o ganlyniad i COVID-19 i rym. Symudasom yn syth i weithredu'n gyfan gwbl ar-lein, ac rydym yn rhagweld y bydd effeithiau cymdeithasol y pandemig a'r cyfyngiadau dilynol yn cael dylanwad sylweddol ar ein gwaith yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at drefnu'n gymunedol ac at adeiladu grym cymunedau gyda'r grwpiau sy'n aelodau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.


Sam Ix-Edwards & Kay Polley

Incwm



Cyfanswm: £158,243

Gwariant



Cyfanswm: £144,505



**Esmée
Fairbairn**
FOUNDATION



**Paul Hamlyn
Foundation**



**CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND**

**the
Tudor trust**

Supported by players of



Awarded funds from



Ein staff Mae swyddogaeth ein prif drefnydd yn gweithredu ar sail rhannu swydd rhwng Kay Polley a Sam Rex-Edwards. Yn gyffelyb, mae Lucy Allin a Chloe Gallagher yn rhannu swydd trefnydd ieuencid a chymuned. Mae Lucy hefyd yn gweithio fel cydgysylltydd Tref Noddfa un diwrnod yr wythnos. Ym mis Hydref, ymunodd Hugo Panayiotou a Kelly Roberts â'r tîm fel trefnwyr cymunedol. Gweithiwr cynorthwyol gweinyddol rhan amser TCC yw Sue Williams.

Ein hymddiriedolwyr Mae ein bwrdd o ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Y bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd: Y Parch Dr Jennie Hurd (cadeirydd), Dr Farookh Jishi (is-gadeirydd), Mrs Sylvia Partington (trysorydd), Y Parch Anna Jane Evans, Mr John Gallanders, Mrs Nia Higginbotham, Mr Bill Long, Mrs Ann Owen, Mrs Maria Rimmer, Ms Melanie Sinclair, and Ms Alison Tudor Williams, efo'r Arglwydd Esgob Gregory Cameron fel Noddwr. Ym mis Chwefror 2020 cyfetholodd y bwrdd ddau o ymddiriedolwyr ychwanegol: yr Hybarch Chris Potter, a Mr Harry Perera, sy'n ymuno â'r bwrdd fel ymddiriedolwr ifanc cyntaf TCC. Mae pob grŵp yn cael eu hannog i enwebu aelodau i fod yn ymddiriedolwyr.

Ein harianwyr Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyllidwyr a nodir uchod ac i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, sy'n darparu grantiau sy'n ein cynorthwyo i redeg TCC o ddydd i ddydd. Mae cyfrifon llawn, wedi'u harchwilio'n annibynnol, wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynnyddol TCC.

Cysylltwch â ni 37 Ffordd Kingsmills, Wrecsam. LL13 8NH / www.tcc-wales.org.uk / 01978

262588 / office@tcc-wales.org.uk / @TCCWales